

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Bryn Siriol, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 6 Rhagfyr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mawrth 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bryn Siriol, yr Wyddgrug, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 6 Rhagfyr 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Deintyddol Bryn Siriol, yr Wyddgrug yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas
- Mae'r staff yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'w cwestiynau sgrinio COVID-19 a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r ystafelloedd aros a'r deintyddfeydd priodol tra roeddent yn y practis
- Mae system unffordd ar waith o hyd
- Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl ac roedd ramp ar gael i gadeiriau olwyn. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyrraedd pob deintyddfa ar y llawr gwaelod, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau. Gallai cleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y llawr cyntaf drwy ddefnyddio cadair esgyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r weithdrefn gwyno
- Rhoi cofnodlyfr canolog ar waith i gofnodi pryderon llafar / anffurfiol
- Cyhoeddi dadansoddiad o'r adborth gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Practis Deintyddol Bryn Siriol, yr Wyddgrug mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru ar eu cyfer. Roedd pob ardal yn lân ac yn daclus.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Ystafell ddihalogi ddynodedig.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y prosesau ar gyfer archwilio trefniadau sicrhau ansawdd
- Dechrau cynnal profion baeddu bob chwarter ar gyfer y baddonau uwchsain
- Pecyn cyfarpar meddygol brys
- Adolygu a diweddarau'r rheolau ymbelydredd lleol ym mhob deintyddfa
- Adolygu a diweddarau'r ffolder diogelu rhag ymbelydredd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Deintyddol Bryn Siriol, yr Wyddgrug.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn cynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a nodwyd gennym nad oedd pob polisi sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar waith
- Sicrhau y caiff arfarniadau staff eu cynnal bob blwyddyn
- Cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol
- Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd pob un o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

“Gwasanaeth rhagorol bob amser. Mae Mr John Jones yn gwneud gwaith gwych, mae'n broffesiynol iawn ac yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol. Mae ei nyrs ddeintyddol hefyd yn hyfryd ac yn rhoi cysur i mi. Mae'r gwaith tîm rhyngddynt yn rhoi tawelwch meddwl mawr”

“Rwy'n hyderus iawn yn y driniaeth a ddarperir. Staff cyfeillgar a phroffesiynol”

“Staff derbynfa a staff deintyddol rhagorol, barod eu cymwynas”

“Bob amser yn broffesiynol ac yn gyfeillgar”

“Rhagorol”

“Mae'n anfon negeseuon testun / negeseuon e-bost i atgoffa cleifion”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

“Mae'n berffaith fel y mae. Mae pawb yn gyfeillgar ac yn broffesiynol”

“Doedd dim byd y gallai fod wedi bod ei angen arna i”

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom y newidiadau a wnaed i amgylchedd y practis mewn ymateb i COVID-19. Er mwyn diogelu rhag y risg sy'n gysylltiedig â'r feirws, gwelsom fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- roedd peiriannau gel alcohol a masgiau wyneb ar gael mewn manau strategol ym mhob rhan o'r practis
- roedd arwyddion cadw pellter cymdeithasol i'w gweld
- roedd system unffordd ar waith
- gosodwyd sgrin amddiffynnol yn y dderbynfa
- gosodwyd gwyntyllau echdynnu yn y deintyddfeydd.

Dywedodd y cleifion wrthym, wrth fynd i'r practis, ei bod yn amlwg iawn bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 ar waith.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn parhau i gofnodi ymatebion y cleifion i'r cwestiynau sgrinio COVID-19, a gwelsom y staff yn tywys cleifion i'r ardaloedd aros a'r deintyddfeydd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys manau penodol i'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau a oedd ar gael iddynt o ran y driniaeth roedd angen iddynt ei chael.

Dyweddod pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallant ei deall.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Dywedwyd wrthym fod siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael iddynt.

Gwelwyd bod y 9 Egwyddor, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Mae'r 9 Egwyddor yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac maent yn nodi'r hyn y dylai cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol o dan y rheoliadau.

Gwelsom fod posteri a thaflenni gwybodaeth amrywiol yn cael eu harddangos, gan roi amrywiaeth o wybodaeth i'r cleifion am y practis deintyddol.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gost triniaethau deintyddol ar gael yn yr ardaloedd aros.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Cadarnhaodd 12 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un a dywedodd pump wrthym ei bod yn eithaf hawdd.

Mae'r staff yn y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd 12 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi. Roedd rhif mewn argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar y cleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa, ac roedd wedi'i nodi ar wefan y practis, ar neges peiriant ateb ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom eu bod yn fanwl ac o safon foddhaol. Gwelsom dystiolaeth bod opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod gofyn i bob claf gydsynio i driniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio. Gwnaeth un claf y sylw canlynol:

“Ddim o gwbl”

Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl ac roedd ramp ar gael i gadeiriau olwyn. Mae'r cyfleusterau clinigol ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyrraedd pob deintyddfa ar y llawr gwaelod, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau. Gallai cleifion â phroblemau symudedd gyrraedd y llawr cyntaf drwy ddefnyddio cadair esgyn.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod polisi cwyno ar waith. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, neu sut i fynd ati i godi pryder, wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd y weithdrefn yn cynnwys y canlynol:

- manylion cyswllt AGIC fel yr awdurdod rheoleiddio

- cyfeiriad at AGIC fel llwybr i'r cleifion gwyno
- Cyfeiriad at weithdrefn Gweithio i Wella'r GIG
- ffynonellau cymorth ac eiriolaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r weithdrefn gwyno gael ei diweddarau a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a gweithdrefn Gweithio i Wella'r GIG.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i gwynion.

Dywedwyd wrthym fod pryderon anffurfiol yn cael eu hystyried ar unwaith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion yn cael eu cadw. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw bryderon ar lafar neu bryderon anffurfiol gael eu cofnodi a'u monitro mewn cofnodlyfr canolog er mwyn gallu nodi unrhyw themâu. Dylai'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr canolog ar waith i gofnodi unrhyw bryderon a gyflwynir ar lafar neu bryderon anffurfiol.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a wneir drwy roi holiaduron i gleifion. Roedd blwch sylwadau /awgrymiadau hefyd ar gael yn yr ardaloedd aros. Caiff dadansoddiad o'r adborth ei baratoi gan y rheolwr cofrestredig a'i drafod â'r tîm deintyddol. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig arddangos/cyhoeddi'r dadansoddiad o'r adborth er mwyn dangos i'r cleifion fod y sylwadau wedi cael eu cofnodi ac y cymerwyd camau yn unol â'r sylwadau hynny i wella'r broses o ddysgu ac i wella'r gwasanaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Wrth gael ein tywys o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwelsom fod cannydd yn cael ei storio mewn ystafell heb ddrws y gallai'r cleifion fynd i mewn iddi. Gall dod i gysylltiad â channydd achosi problemau iechyd fel llid yn y llygaid, y geg, yr ysgyfaint ac ar y croen. Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at y mater hwn, a symudodd y cannydd ar unwaith.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion. Roedd arwyddion clir ar eu cyfer ac roeddent yn lân yn ôl pob golwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster lechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg ar waith gan y practis, er enghraifft tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Roedd polisi dadebru ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/hyfforddiant dadebru brys.

Atal a rheoli heintiau

Roedd cyfleusterau penodol ar gael ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleusterau yn lân ac yn drefnus. Roeddent yn cynnwys cyfarpar addas ac roeddent yn daclus.

Gwelsom fod y trefniadau dihalogi yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.
- Roedd offer yn cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad wedi'i nodi arnynt.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anaf a/neu haint.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac roedd caeadau arnynt.

Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith i lanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arferion gorau diweddaraf.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Rydym yn cydnabod bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y sinciau golchi dwylo yn cynnwys plygiau a gorfifoedd. Roedd hyn yn peri risg o groes-heintio. Nid oedd y risg hon wedi'i nodi yn yr archwiliad WHTM 01-05 a gwblhawyd yn ddiweddar. Dylai'r practis ystyried gosod sinciau golchi dwylo newydd neu drefnu i gael gwared ar y plygiau a selio'r gorfifoedd. Dylai'r rheolwr cofrestredig hefyd drefnu i'r sinciau golchi dwylo gael eu nodi yn archwiliad WHTM 01-05 a'r cynllun gweithredu yn deillio o'r archwiliad hwnnw.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i archwilio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi'r gwiriadau diogelwch adeg dechrau'r awtoclaf ac ar ddiwedd y dydd. Gwelsom fod profion protein wythnosol a phroffion ffoil chwarterol yn cael eu cynnal ar y baddonau uwchsain. Fodd bynnag, ni chynhelir unrhyw broffion baeddu. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ddechrau cynnal profion baeddu bob chwarter ar gyfer y baddonau uwchsain.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddioli a'i roi yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Nodwyd gennym y gellid trefnu'r cyfarpar glanhau yn well er mwyn i bennau'r mopiau allu sychu allan. Dylai'r rheolwr cofrestredig aildrefnu'r cwpwrdd glanhau a sicrhau y caiff y mopiau eu rhoi uwchben y bwcedi cyfatebol. Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig fod cynlluniau eisoes ar waith i adnewyddu'r ystafell ac i osod drws tân.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf dynodedig. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu hyfforddiant y ddau swyddog cymorth cyntaf. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr hyfforddiant cymorth cyntaf ei adnewyddu.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn man y gellir mynd iddo'n hawdd pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU. Fodd bynnag, gwelsom fod y dyddiad ar y masg clir maint 3 ar gyfer bag Ambu wedi mynd heibio. Trefnodd y rheolwr cofrestredig ar unwaith i fasg newydd gael ei ddsbarthu drannoeth. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dyddiadau ar y cyfarpar hefyd yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob wythnos er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt wedi mynd heibio.

Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n briodol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisiâu yn

cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd aelod o'r staff wedi'i enwebu i fod yn arweinydd diogelu ac roedd yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ddilyn. Gallai hefyd roi cyngor ac arweiniad i'r staff ar faterion diogelu.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig ac roeddent yn hyderus iawn y byddai'n gweithredu ynghylch unrhyw bryderon.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd pob un o'r hylenydd, y nyrsys deintyddol a'r staff gweinyddol wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwnaethom gadarnhau fod gan bob deintydd wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno tystiolaeth i AGIC bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.

Cadarnhawyd gennym fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Cawsom sicrwydd llafar fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i sicrhau y gall ddefnyddio'r cyfarpar yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd yr hyfforddiant hwn wedi'i ddogfennu. Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y bydd unrhyw hyfforddiant a gaiff aelodau newydd o'r staff yn cael ei gofnodi. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

Roedd copi o'r rheolau ymbelydredd lleol wedi'i arddangos ym mhob deintyddfa. Fodd bynnag, nid oedd y rheolau lleol yn gyfredol gan eu bod yn cyfeirio at hen Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r rheolau ymbelydredd lleol gael eu hadolygu a'u diweddarau ym mhob deintyddfa.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd yn y practis. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd yr adran nodi atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr (hawl deiliaid dyletswydd) wedi cael ei chwblhau. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffolder diogelu rhag ymbelydredd ei gwblhau'n llawn.

Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar pelydr-X. Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd gael eu cwblhau.

Roedd profion lletem risiog yn cael eu defnyddio ar gyfer pob ffilm wlyb, ond nid oedd profion yn cael eu cynnal ar ffilmiau digidol. Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r profion lletem risiog gael eu cwblhau ar y system ddigidol gan y byddai profion o'r fath yn nodi unrhyw ddifrod ar y platiau ffosffor.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oedd y practis wedi defnyddio Adnodd Gwella Ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer Ymbelydredd Ïoneiddio, nac adnoddau sicrhau ansawdd eraill. Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i ddefnyddio adnodd gwella Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisiâu a gweithdrefnau .

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Prin iawn oedd y dystiolaeth i ddangos bod y practis, at ei gilydd, yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dim ond tystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau ac archwiliad graddio radiograffig wedi'u cwblhau a welsom. Dylai'r rheolwr cofrestredig roi rhaglen flynyddol o archwiliadau clinigol fwy cadarn ar waith. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio gwefan AaGIC a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan y cynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (CAPRO) er mwyn gwella ei brosesau archwilio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod adolygiadau cymheiriaid rhwng aelodau o'r staff clinigol wedi cael eu cynnal a bod y cyfarfodydd hyn wedi'u dogfennu.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copiâu wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd. Roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac nid oedd modd i neb heb awdurdod eu gweld. Roedd polisi diogelwch data ar waith i hysbysu'r staff am yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt.

Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Ym mhob achos, roedd y cofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a'r unigolyn hwn hefyd yw rheolwr y practis.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r rheolwr cofrestredig a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Roedd llawer o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers cryn amser ac roedd perthynas dda rhyngddynt.

Gwelsom fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, nid oedd y polisiau canlynol ar waith:

- Cynnal a chadw'r adeilad
- Parhad busnes
- Meddyginiaethau
- Archwilio clinigol
- Cydsyniad
- Sicrhau bod y safle yn addas at y diben
- Rheoli risg
- Recriwtio, sefydlu a chadw cyflogaeth; amodau cyflogaeth a gofynion hyfforddi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau a restrir yn y rheoliadau ar waith a datblygu system i sicrhau y cânt eu hadolygu bob tair blynedd a'u llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt.

Roedd gan y practis hefyd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac roedd y dystysgrif wedi'i harddangos.

Y Gweithlu

Roedd gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi dilyn rhaglen sefydlu, a oedd yn ymdrin â hyfforddiant a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglen sefydlu wedi'i dogfennu. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y rhaglen sefydlu staff ei chofnodi ac y caiff y cofnodion eu cadw yn ffeiliau'r aelodau unigol o staff.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw'r staff wedi cael arfarniad. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y partneriaid, a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw mewn ffeil. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng y staff clinigol a'r staff anghlinigol. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol rheolaidd eu cynnal ac y caiff cofnodion eu cadw mewn ffeil.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn ffurfiol yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Cannydd yn cael ei storio mewn ystafell heb ddrws y gallai'r cleifion fynd i mewn iddi.	Gall dod i gysylltiad â channydd achosi llid yn y llygaid, y geg, yr ysgyfaint ac ar y croen, sy'n peri risg ddifrifol o niwed.	Uwchgyfeiriwyd at y rheolwr cofrestredig	Cafodd y cannydd ei symud ar unwaith a'i roi mewn ardal ddiogel.
Roedd y dyddiad ar y masg clir maint 3 ar gyfer bag Ambu wedi mynd heibio.	Methu â darparu cymorth anadlu effeithiol i gleifion y mae angen eu dadebru. Mae hyn yn peri risg ddifrifol o niwed.	Uwchgyfeiriwyd at y rheolwr cofrestredig	Archebodd y rheolwr cofrestredig fasg newydd ar unwaith i gyrraedd drannoeth.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bryn Siriol

Dyddiad yr arolygiad: 6 Rhagfyr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Bryn Siriol

Dyddiad yr arolygiad: 6 Rhagfyr 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r weithdrefn gwyno gael ei diweddarau a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau a gweithdrefn Gweithio i Wella'r GIG.	Gweithio i Wella'r GIG Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Mae gweithdrefn gwyno newydd wrthi'n cael ei hysgrifennu gan sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r weithdrefn Gweithio i Wella a'i bod hefyd yn cynnwys Eiriolaeth	Wendy Jones	I'w gwblhau erbyn 27.02.2023
Dylai'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr canolog ar waith i gofnodi unrhyw bryderon a gyflwynir ar lafar neu bryderon anffurfiol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Mae cofnodlyfr bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw bryderon anffurfiol. Caiff ei archwilio'n rheolaidd	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant

<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i arddangos / cyhoeddi dadansoddiad o'r adborth gan gleifion.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16</p>	<p>Caiff ffurflenni adborth gan gleifion eu harchwilio bob 6 mis a chaiff yr adborth ei arddangos yn yr ardaloedd aros.</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>Cwblhawyd y Gwelliant</p>
<p>Rhaid i'r practis drefnu i osod sinciau golchi dwylo newydd neu drefnu i gael gwared ar y plygiau a selio'r gorfifoedd.</p> <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y broblem â'r sinciau golchi dwylo ei nodi yn yr archwiliad rheoli heintiau.</p>	<p>WHTM 01-05</p>	<p>Cysylltwyd â phlwmwr yn gofyn iddo selio'r gorfifoedd ar y sinciau.</p> <p>Caiff y mater ei ychwanegu at yr archwiliad rheoli heintiau gan yr arweinydd rheoli heintiau.</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 01.05.2023</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal profion baeddu bob chwarter ar gyfer y baddonau uwchsain.</p>	<p>WHTM 01-05</p>	<p>Prynwyd profion baeddu a chynhelir cyfarfod i roi gwybod i'r staff sut a phryd y dylid eu defnyddio.</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>Cwblhawyd y Gwelliant</p>
<p>Dylai'r rheolwr cofrestredig aildrefnu'r cwpwrdd glanhau a sicrhau y caiff y mopiau eu rhoi uwchben y bwcedi cyfatebol.</p>	<p>Safon 2.1</p>	<p>Mae'r gwaith adnewyddu bellach wedi'i gwblhau ac mae ardal benodol lle gellir hongian y mopiau dros fwcedi â chodau lliw.</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>Cwblhawyd y Gwelliant</p>

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr hyfforddiant cymorth cyntaf ei adnewyddu.	Rheoliadau Deinyddiaeth Breifat 31	Mae'r ddau swyddog cymorth cyntaf bellach wedi cwblhau eu cwrs ailgymhwysu ar gyfer cymorth cyntaf yn y gwaith	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y dyddiadau ar y cyfarpar brys yn cael eu cofnodi a'u gwirio bob wythnos.	Rheoliadau Deinyddiaeth Breifat 31	Caiff cofnodlyfr/taflen gyfeirio newydd bellach eu defnyddio ar gyfer yr holl gyfarpar brys fel rhan o'r gwiriadau wythnosol	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno tystiolaeth i AGIC bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n berthnasol i'w rôl.	Rheoliadau Deinyddiaeth Breifat 18	Mae pob aelod o'r staff y mae angen gwiriad DBS arno wedi cwblhau cais. Mae'r ceisiadau wrthi'n cael eu prosesu ar hyn o bryd.	Wendy Jones	Wedi'u hanfon ac yn aros iddynt gael eu prosesu
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff unrhyw hyfforddiant ar gyfarpar a gaiff aelodau newydd o'r staff fel rhan o'r broses sefydlu ei gofnodi.	Safon 2.9	Mae polisi a gweithdrefn sefydlu bellach wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses ar gyfer aelodau newydd o staff, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfarpar, a chaiff cofnodion eu cadw.	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y ffolder diogelu rhag ymbelydredd ei gwblhau'n llawn.	IR(ME)R 2017	Rydym wrthi'n lanlwytho'r ffolder i ffeil ddigidol ar-lein	Wendy Jones	I'w gwblhau erbyn 01.05.2023

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r rheolau ymbelydredd lleol gael eu hadolygu a'u diweddarau ym mhob deintyddfa.	IR(ME)R 2017	Mae rheolau lleol cyfredol newydd wrthi'n cael eu hysgrifennu	Wendy Jones	I'w gwblhau erbyn 01.04.2023
Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu archwiliadau sicrhau ansawdd radiograffig bob chwarter.	IR(ME)R 2017	Rydym bellach yn defnyddio taenlen i gofnodi'r gwiriadau bob chwarter	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant
Dylai'r rheolwr cofrestredig drefnu i'r profion lletem risiog gael eu cwblhau ar y system ddigidol.	WHTM 01-05	Rydym bellach yn cynnwys prawf lletem risiog digidol ochr yn ochr â'r prawf presennol ar gyfer ffilmiau gwlyb.	Wendy Jones	Cwblhawyd y Gwelliant
Dylai'r rheolwr cofrestredig roi proses archwilio fwy cadarn ar waith a sicrhau y caiff rhaglen flynyddol o archwiliadau clinigol ei rhoi ar waith. Rydym yn argymhell y dylai'r practis ystyried defnyddio gwefan AaGIC a'r pecynnau cymorth ar gyfer gwella a ariennir gan y cynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid (CAPRO) er mwyn gwella ei brosesau archwilio.	Safon 3.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Bydd y practis yn gwneud ymholiadau mewn perthynas â chynllun Archwilio Clinigol ac Adolygu Cymheiriaid AaGIC a system arferion gorau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ar gyfer gwella ansawdd ac archwilio.	Wendy Jones	I'w gwblhau erbyn 01.05.2023

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau a restrir yn y rheoliadau ar waith a datblygu system i sicrhau y cânt eu hadolygu bob tair blynedd a'u llofnodi gan y staff i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 8</p>	<p>Rydym yn gweithio ar y polisiau er mwyn sicrhau bod polisi perthnasol ar waith. Byddwn yn defnyddio taenlen er mwyn gallu gweld yn hawdd pryd y bydd angen diweddarau'r polisiau.</p> <p>Pan gaiff cyfarfodydd eu cynnal, caiff polisiau eu trafod ag aelodau'r tîm er mwyn sicrhau eu bod yn eu deall a gofynnir iddynt eu llofnodi er mwyn dangos eu bod wedi eu deall</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 01.05.2023</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y rhaglen sefydlu staff ei chofnodi ac y caiff y cofnodion eu cadw yn ffeiliau'r aelodau unigol o staff.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 17</p>	<p>Mae polisi a gweithdrefn sefydlu bellach wedi'u cynnwys fel rhan o'r broses ar gyfer aelodau newydd o staff, a chaiff cofnodion eu cadw yn y ffeiliau personél.</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>Cwblhawyd y Gwelliant</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 17</p>	<p>Rydym wedi dod o hyd i dempledi arfarnu ac yn bwriadu eu cwblhau yn ystod y 3 mis nesaf</p>	<p>Wendy Jones</p>	<p>I'w gwblhau erbyn 01.05.2023</p>

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd tîm ffurfiol rheolaidd eu cynnal ac y caiff cofnodion eu cadw mewn ffeil.		Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i gynnal cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd â'r tîm a chaiff cofnodion o'r cyfarfodydd eu cadw mewn ffeil	Wendy Jones	Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 27.02.2023
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn y practis a rhoi copi o'r adroddiad dilynol i AGIC.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 16	Cynhelir asesiad o ansawdd y gwasanaeth a chyflwynir adroddiad i AGIC	Wendy Jones	I'w gwblhau erbyn 01.04.2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Wendy Jones

Swydd: Rheolwr y Practis a Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 10/02/2023